RÔL AROLYGYDD CYSWLLT YR AGCC YN Y CYDADOLYGIADAU

Cyflwyniad

Rôl gyffredinol yr arolygydd cyswllt yw pontio gwaith yr AGCC gyda'r awdurdodau lleol mewn perthynas â gwaith adolygu, arolygu, gwerthuso perfformiad, datblygu a chyngor proffesiynol. Rhaid i bob arolygydd AGCC fod yn arolygydd cyswllt i un neu ddau awdurdod. Eu prif gyfrifoldebau yw:

- hyrwyddo gwelliant yn ansawdd y gofal a'r canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth;
- rheoli perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol yn yr awdurdodau lleol yn effeithiol;
- gwerthuso perfformiad gwasanaethau cymdeithasol pob awdurdod yn flynyddol ynghyd â'u gallu i wella;
- nodi pa gamau sy'n rhaid i bob awdurdod eu cymryd er mwyn gwella ansawdd y gwasanaethau cymdeithasol;
- asesu llwyddiant y gwelliannau.

Maent yn parhau i gysylltu â'r awdurdodau y maent yn gyfrifol amdanynt ynghyd â'r arolygiaethau/asiantaethau gwella megis Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Rôl benodol mewn Cydadolygiadau

Disgwylir i'r arolygydd cyswllt gydweithio gyda'r tîm cydadolygiadau drwy gydol y broses. Mae eu cyfraniad yn bwysig ar rai adegau penodol:

- briffio'r adolygydd arweiniol ynghylch y gwerthusiad blynyddol o berfformiad;
- helpu'r adolygydd arweiniol i gael gafael ar wybodaeth oddi wrth arolygiaethau ac asiantaethau gwella eraill;
- helpu'r tîm cydadolygiadau a'r awdurdod lleol i lenwi'r templed gwybodaeth ragarweiniol;
- hyrwyddo cyfarfodydd sefydlu gyda'r awdurdod lleol;
- mynychu'r cyfarfod asesu dros dro ar ddiwedd Cyfnod 1 er mwyn adolygu'r wybodaeth a gasglwyd, penderfynu ar y meysydd allweddol i graffu arnynt yn ystod y gwaith maes a chynllunio sut i gwblhau'r gwaith;
- cymryd rhan yn y cyfarfod adborth a dadansoddi ar ddiwedd y gwaith maes;
- mynychu cyfarfodydd adborth yn yr awdurdod lleol;
- ymateb i ddrafftiau o'r adroddiad terfynol;
- dadansoddi cynllun gweithredu'r awdurdod lleol;
- mynychu cyfarfodydd gydag aelodau etholedig ac eraill er mwyn cyflwyno'r adroddiad.

Mae'r rhan y bydd yr arolygydd cyswllt yn ei chwarae yn y gwaith maes yn dibynnu ar y dadansoddiad a ddaw yn sgil y cyfarfod asesu interim ynghyd â ffactorau megis prif rôl neu rôl arbennig yr arolygydd cyswllt o fewn AGCC.

Ar ôl cynnal y cydadolygiad

Yr arolygydd cyswllt sy'n bennaf gyfrifol am fonitro'r gwaith o roi argymhellion y cydadolygiad ar waith, drwy'r gwerthusiad blynyddol o berfformiad a thrwy unrhyw fesurau craffu eraill y cytunwyd arnynt.

Byddant o gymorth wrth sicrhau bod y camau gweithredu yn cael eu hymgorffori yn y prosesau eraill sy'n deillio o Raglen Cymru ar gyfer Gwella, megis llunio cynllun gwella yr awdurdod lleol a'r dadansoddiad ar y cyd o risg.